



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



Tystysgrif Polisi a Chynllunio laith

Hyrwyddo'r Gymraeg

02/03/26

Sesiwn 4: Iechyd

9:30	Rhan 1:	Dala lan
10:00	Rhan 2:	Sian Howys a Gwerfyl Roberts
11:20	Egwyl	10 munud
11:30	Rhan 3:	Trafodaeth
12:25	Dysgu Cyfeiriol a Ffarwelio	

Deddfwriaeth a Pholisi

O ran deddfwriaeth, mae **Mesur y Gymraeg** (Cymru) 2011 yn gosod cyfrifoldeb statudol ar gyrff i sicrhau neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fe wneir hyn trwy'r Safonau Iaith Gymraeg a osodir arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ond mae bylchau a gwendidau yn perthyn i **Safonau'r Gymraeg** sy'n lleihau hawliau unigolion i dderbyn gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy'r Gymraeg.



Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

2011 mccc 1

Welsh Language (Wales) Measure 2011

2011 nawm 1

Deddfwriaeth a Pholisi

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** (Cymru) 2014 yn cryfhau trefniadau cyd-weithio aml-asantiaeth yn y sector iechyd a gofal trwy osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad gyda'u partneriaid perthnasol ac eraill mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth, gofalmwr a phlant'. Mae'r ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill i 'roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith).

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

Gwybodaeth hanfodol


 Llesiant	 Pobl
 Gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio	 Gwasanaethau ataliol

Deddfwriaeth a Pholisi

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gosod cyfrifoldeb statudol trosfwaol ychwanegol ar Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre i gyfrannu tuag at Gymru lle mae'r 'Gymraeg yn ffynnu' a 'Chymru iachach'.

Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

Caiff egwyddorion y deddfau uchod eu hymgorffori mewn nifer o strategaethau a fframweithiau sy'n ffurfio cyd-destun i **Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau** (Llywodraeth Cymru, 2012, 2016, 2022).



Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn ei **Fframwaith Strategol Mwy na geiriau** (LLC, 2012) oedd y byddai siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal sy'n bodloni eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal, gyda phwyslais cynyddol ar weithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg. Golyga hyn fod angen newid diwylliant o fewn y sector wrth symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr.

Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

Yn sgil cyflwyno Safonau'r Gymraeg i'r sector yn 2019, rhoddwyd hwb i **Mwy na Geiriau** wrth i lawer o'i amcanion adlewyrchu'r gofynion statudol. Roedd disgwyl y byddai hyn yn arwain yn ei dro at brosesau monitro a fydd yn cynnig ystod fwy eang o ddata dibynadwy ynghylch cyflwr y ddarpariaeth ddwyieithog gan sicrhau sail gadarn ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r dyfodol. Serch hynny, mae **Adroddiad Gwerthuso Mwy na Geiriau** (LLC, 2021) yn cadarnhau pryderon cynyddol am y diffyg cynnydd i gyflawni amcanion y strategaeth, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Gymraeg yn parhau i fod yn ymylol i ddarpariaeth gwasanaethau. Er bod sawl dogfen bolisi bellach yn cydnabod bod derbyn gofal trwy'r Gymraeg yn fater o angen clinigol i lawer, prin y gosodir yr egwyddor hon yn ganolog wrth ymdrin â materion megis gwella ansawdd, lleihau risg, cynllunio'r gweithlu, caffael gwasanaethau a phwrcasu systemau TG.

Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

Erbyn 2016, roedd peth cynnydd i'w weld o ran codi ymwybyddiaeth iaith ar draws y sector ond parhau'n fratiog oedd y ddarpariaeth Gymraeg, yn ôl **Adroddiadau Monitro Mwy Na Geiriau** a thystiolaeth defnyddwyr, gyda diffygion sylweddol yn ymddangos o ran prif-ffrydio'r fframwaith i gynlluniau darparu gwasanaeth. Am hynny, rhoddwyd sylw penodol o fewn **Fframwaith Strategol Olynol Mwy Na Geiriau** (LLC 2016) ar geisio sicrhau dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau Cymraeg wrth ganolbwyntio ar y saith elfen benodol sy'n sail ar gyfer gweithredu'r 'cynnig rhagweithiol'.

Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

- Amser a ddengys os bydd **Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau Cynllun Pum Mlynedd 2022-7 (LIC, 2022)** yn llwyddo i'r perwyl hyn.
- **Symud Cymru Ymlaen: Y Rhaglen Lywodraethu 2016-2021 a Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol (LIC, 2017)** sy'n gosod cyfeiriad Llywodraeth Cymru ar gyfer gwreiddio amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran 'darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon' a 'datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth'.

Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

• Mae'r strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr (LIC, 2017) yn cydnabod yr her o ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol sy'n gonglfaen i weithrediad **Mwy na Geiriau** (LIC, 2012) o ystyried bod bron i 200,000 o staff gan y GIG, gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau gyda'i gilydd a bod cleifion yn cysylltu gyda'r GIG yn unig 20 miliwn o weithiau'r flwyddyn. Er hynny, noda'r strategaeth bod y nifer o staff a'r lefel uchel o ryngweithio gyda'r cyhoedd yn golygu bod potensial uchel i'r sector wneud cyfraniad gwerthfawr i nod Cymraeg 2050.

Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

• Mae **Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol** (LIC, 2018) yn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac yn gosod y cyfeiriad ar gyfer gwedd newid darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros y tymor hir. “Mae ailbennu gogwydd gwasanaethau at fodel sy’n fwy cymunedol, yn fwy cyd-gysylltiedig ac yn canolbwyntio’n fwy ar yr unigolyn yn rhoi cyfle i fyrddau iechyd a sefydliadau gofal cymdeithasol ailystyried y ffyrdd y maent yn diwallu anghenion eu poblogaethau o ran y Gymraeg, a chymryd camau i sefydlu a hybu defnydd o’r Gymraeg trwy fodelau gofal newydd y byddant i gyd yn eu datblygu ar lefel ardal leol yn y dyfodol.’



Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

• Mae Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (LIC, 2019) yn cydnabod bod ‘ymdrechion parhaus i gynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyflawni’r weledigaeth a fynegir yn *Mwy na geiriau*.’ Ymhellach, mae’n datgan fod y ‘gweithredoedd hyn yn cefnogi gwelliannau parhaus ond dylai pob cam gweithredu gael ei ystyried yng nghydestun y Gymraeg.’



Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

- Mae Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AaGIC/Cyngor Gofal, 2020) yn ymrwymo i 'ddatblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol'.

Strategaethau, Fframweithiau a Safonau Iechyd a Gofal

Mae **Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023** (LLC, 2023) yn gosod y Gymraeg yn y meysydd ansawdd, er enghraifft mae 'dewis iaith' yn rhan o'r maes 'teg' (para 6.4.5), ac mae hynny'n cynnwys y Gymraeg yn ogystal ag ieithoedd tramor ac Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r Gymraeg hefyd yn rhan greiddiol o'r maes 'person-ganolog' gan roi pobl wrth graidd y broses o wneud penderfyniadau gyda'r nod o sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd yn eu hiaith gyntaf. Ceir adran benodol yn y canllawiau ar y Gymraeg sy'n cyfeirio at bwysigrwydd **Mwy na Geiriau** ac mae'n esbonio sut y mae'n rhaid ystyried gofynion y Gymraeg drwy lens y **Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal**, a sut y maent yn rhan hanfodol o'r system reoli ansawdd.

Tystiolaeth Ymchwil

Canolbwynt gwasanaethau iechyd a gofal yw gofalu am bobl fel unigolion a gosod y defnyddiwr wrth galon y gofal hwnnw. Yng nghyd-destun dwyieithog Cymru, dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl egluro'n effeithiol beth yw eu hanghenion gofal, yn enwedig pan fyddant mewn sefyllfa fregus. Am hynny, mae darparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg yn allweddol ar gyfer sicrhau diogelwch ac ansawdd y gwasanaethau hyn. Er hynny, ceir tystiolaeth gynyddol fod y ddarpariaeth Gymraeg yn anghyson, diffygiol ac annigonol (Misell, 2000; Madoc-Jones, Prys, 2010; 2004; Iaith, 2012; CYG, 2014; CYG/Cymdeithas Alzheimer Cymru, 2018; Hughes, 2018; Griffiths 2020; George, 2021). Gall y fath rwystrau amharu'n sylweddol ar brofiadau unigolion, eu deilliannau iechyd a'u lles, fel y dengys y dystiolaeth ryngwladol ehangach (Jacobs et al, 2006; Schwei et al, 2016; De Moissac a Bowen (2018).

- Misell (2000) a luniodd yr adroddiad cyntaf o'i fath ar gyflwr ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ran diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Ar sail gwaith ymchwil cynhwysfawr, datgelodd fod:
- Y Gymraeg yn anweladwy wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan arwain at ddiffygion sylfaenol yn y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- Darparwyr yn diystyri anghenion iaith defnyddwyr gan fygwth diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd eu gofal a'u gosod dan anfantaais wirioneddol.
- Hyn yn neilltuol o wir am y bobl hynny sy'n derbyn therapi iaith a lleferydd ac am nifer o grwpiau bregus, sef pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn a phlant bach.

Tystiolaeth Ymchwil

- Yn sgil argymhellion Misell (2000), sefydlodd LLC dasglu ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, parhau mae'r dystiolaeth hyd heddiw ynghylch cyflwr annigonol y ddarpariaeth a'r risg i ddefnyddwyr, fel y nodir isod:

Tystiolaeth Ymchwil

- Gyda ffocws penodol ar wasanaethau iechyd a gofal ar gyfer pobl gyda salwch meddwl, dangosodd Madoc-Jones (2004) fod bod yn ddwyieithog yn llunio profiadau siaradwyr Cymraeg yn sylweddol. Casglwyd mai diffygiol oedd y gwasanaethau bryd hynny i ddiwallu eu hanghenion.

•Adroddodd Prys (2010) ar y sefyllfa annigonol o fewn y trydydd sector lle mae diffyg gwasanaethau Cymraeg yn achosi defnyddwyr i dderbyn gwasanaeth trwy'r Saesneg er eu bod yn ymwybodol o'r manteision o gael darpariaeth Gymraeg. Anaml y cynigir dewis iaith i siaradwyr Cymraeg, ac mae'n annhebygol y byddant yn gwrthwynebu oherwydd eu bod yn agored i niwed.

Tystiolaeth Ymchwil

•Er mwyn sefydlu'r dystiolaeth ar gyfer datblygu MNG, bu Iaith (2012) yn adrodd ar gasglu tystiolaeth am brofiadau siaradwyr Cymraeg o ystod eang o wasanaethau iechyd a gofal. Cafwyd canfyddiadau pellgyrhaeddol sy'n atgyfnerthu'r dystiolaeth flaenorol am ddiffyg gwasanaethau dwyieithog, gan beryglu ansawdd y gofal ac effeithio'n niweidiol ar ddefnyddwyr o bod oed.

Tystiolaeth Ymchwil

•Wrth ddadansoddi set o ddata meintiol, dangosodd Owen a Morris (2012) nad yw cleifion Cymraeg yn derbyn yr un budd o adsefydlu os nad yw aelodau'r tîm adsefydlu yn medru'r Gymraeg. Er mwyn i gleifion Cymraeg gyrraedd eu llawn botensial trwy adsefydlu, ymddengys fod angen i therapyddion a staff y tîm adsefydlu sy'n rhyngweithio gyda'r cleifion fedru sgwrsio yn Gymraeg.

Tystiolaeth Ymchwil

•Gan roi sylw penodol i'r sector gofal sylfaenol, cynhaliwyd ymholiad statudol cyntaf Comisiynydd y Gymraeg yn 2014. Ei ffocws oedd profiadau siaradwyr Cymraeg o dderbyn neu fethu â derbyn gwasanaethau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd adroddiad swmpus ar sail tystiolaeth sy'n disgrifio 'profiadau dirdynol siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd o fethu â chael gwasanaeth iechyd addas i'w anghenion.' (tud 4). Er hynny, dywed fod cydnabyddiaeth bellach ar draws y sector iechyd bod 'y Gymraeg yn rhan annatod o ansawdd gofal a bod darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog yn angenrheidiol i les cleifion Cymraeg eu hiaith.' (tud 4).

Tystiolaeth Ymchwil

- Cadarnhau'r angen dirfawr am driniaeth therapi siarad drwy famiaith a wnaeth Hughes (2018) wrth archwilio profiadau siaradwyr Cymraeg o wasanaethau iechyd meddwl. Honnir fod angen *'gweithredu'r cysyniad gwerthfawr o 'gynnig rhagweithiol' i'r eithaf yn y maes hwn a sicrhau darpariaeth ieithyddol sensitif fel mater o drefn mewn gwasanaethau iechyd meddwl i bob oed'* (tud 6).

• Gyda ffocws penodol ar wasanaethau dementia, bu Comisiynydd y Gymraeg yn cydweithio â Chymdeithas Alzheimer Cymru (2018) er mwyn archwilio defnydd y Gymraeg mewn gofal. Dengys y canfyddiadau fod pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia yn methu â chael darpariaeth gofal yn y Gymraeg. Cyflwynir argymhellion sy'n galw am ddatrysiadau polisi er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Tystiolaeth Ymchwil

•Ar sail eu hadolygiad o'r llenyddiaeth fyd-eang, daw Martin, Woods a Williams (2018) i'r casgliad fod cydgordiad ieithyddol a diwylliannol yn hynod fuddiol o ran hyrwyddo lles pobl â dementia sy'n byw mewn cartrefi gofal ar draws y byd. Cynhaliwyd ymchwil penodol mewn cartrefi gofal yng Nghymru sy'n cryfhau'r sylfaen dystiolaeth, ac yn helpu i gyflymu'r broses o integreiddio'r Gymraeg yn ei phrif ffrwd i wasanaethau ar gyfer pobl â dementia, yn wyneb rhwystrau logistaidd, hyfforddiant a gwahaniaethu.

EGWYL



Unrhyw gwestiwn?

.





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Dysgu Cyfeiriol

Darllenwch:

- Pwynt 1
- Pwynt 2
- Pwynt 3





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Yn y sesiwn nesaf:

09/03/2026 Dr Jeremy Evas
Llywodraeth Cymru



